**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**COFNODION:**

**Dyddiad:** 22 Ionawr 2002

**Amser:** 9:30 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Mick Bates (Cadeirydd) | (Democrat Rhyddfrydol) |
| Glyn Davies | (Ceidwadwr) |
| Ron Davies | (Llafur) |
| Brian Gibbons | (Llafur) |
| Pauline Jarman | (Plaid Cymru) |
| Peter Law | (Llafur) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| Alun Pugh | (Llafur) |
| Owen John Thomas | (Plaid Cymru) |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| D Huw Davies | Ymgynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Simon Thwaite | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Dim

**Eitem 1:Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy'n codi: LEG-02-2002(min)**

1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Ionawr 2002.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**

2.1 Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau i hysbysu Clerc y Pwyllgor os byddent hwy, neu eu hymchwilwyr, yn mynychu'r seminar amser cinio ar y broses o ddrafftio a phrosesu deddfau a fyddai'n cael ei gynnal ar 27ain Chwefror.

**Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**

**LC391: Rheoliadau Monitro BSE (Diwygio) (Cymru)2001**

3.1 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.2 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, daeth yr Aelodau i'r casgliad bod materion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.5.

- **Rheoliad 2(3)**

Holwyd pam y cynhwyswyd y geiriau "y maent I'w gweld ynddo" o ystyried y ffaith, fel y nodir, mai dim ond un "Rheoliad y Comisiwn" sydd ar gael.

- **Rheoliad 2(4)(c)**

Holwyd pam fod y geiriad amnewidiol yn gofyn am hysbysiad o fewn 24 awr yn dilyn marwolaeth <u>neu</u> archwiliad/ymchwiliad. O ystyried y ffaith mai dim ond anifail a fu farw a gwmpesir gan y diffiniad "anifail buchol hysbysadwy", bydd yr archwiliad/ymchwiliad bob amser yn ymwneud ag anifail sydd wedi marw. O ganlyniad, ymddengys y dylai'r gofyniad, yn syml, ddatgan y dylid rhoi hysbysiad o fewn 24 awr yn dilyn yr archwiliad/ymchwiliad.

3.3 Daeth yr Aelodau hefyd i'r casgliad y dylid gwneud sylwadau cyffredinol mewn perthynas â'r ddau bwynt canlynol.

- **Rheoliad 3(1)**

Byddai wedi bod o ddefnydd i'r defnyddiwr nodi'r rheoliad lle y gellir canfod y diffiniad.

- **Rheoliad 3(2)**

Byddai wedi bod o ddefnydd i'r defnyddiwr nodi'r rheoliad lle y gellir canfod y diffiniad.

- **Teitl**

Mae'r teitl fel y caiff ei argraffu ar frig tudalen 3 yn rhoi'r flwyddyn 2002 yn hytrach na 2001.

3.4 Felly, cytunodd y Pwyllgor i weithredu'r weithdrefn a nodir yn Rheol Sefydlog 11.4. Yn ôl y Rheol Sefydlog, cyn hysbysu'r Cynulliad y dylai roi sylw arbennig i unrhyw ddeddfwriaeth, dylai'r Cadeirydd, fel cam cyntaf, hysbysu'r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol o fwriad y Pwyllgor i wneud yr hysbysiad hwnnw a rhoi'r cyfle i'r Ysgrifennydd Cynulliad ymateb naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig.

**Gweithredu: Ymgynghorydd Cyfreithiol/Clerc.**

3.5 Mae adroddiad drafft rhagarweiniol y Pwyllgor ar y Rheoliadau ar gael fel LC391 (Adroddiad Drafft).

3.6 Yn ystod y drafodaeth, cododd yr aelodau y pwynt ynglŷn â ph'un a oedd y diffiniad "berson arall" yn yr ymadrodd "unrhyw filfeddyg neu berson arall sydd, yng nhgwrs ei ddyletswyddau yn archwilio neu'n arolygu unrhyw anifail buchol hysbysadwy" yn ddigon clir. Nododd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol ei fod yn fodlon ar y ffaith bod y geiriad yn glir gan fod yn rhaid i'r

archwiliad neu'r ymchwiliad ffurfio rhan o ddyletswyddau ffurfiol y person dan sylw. Fodd bynnag, cyfeiriwyd at y ffaith y byddai'r aelodau, er gwybodaeth, yn dymuno gwybod pwy yn union allai fod yn "berson arall" at ddibenion y ddarpariaeth dan sylw.

**LC392: Rheoliadau Hawliau Cadw (Trosglwyddo Cyfrifoldebau i'r Awdurdod Lleol) (Cymru) 2001**

3.7 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.8. Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, daeth yr Aelodau i'r casgliad fod materion i'w trafod o dan Reol Sefydlog 11.5.

- **Rhagarweiniol 1(2)(a**) Ymddengys bod yna wall drafftio oherwydd mae'n debyg nad oedd y term 'Y Ddeddf' yn cael ei ddefnyddio yn y rheoliadau.
- **Rheoliad** Ni wnaethpwyd unrhyw gyfeiriad yn y rhagarweiniad nac yn y troednodyn (a) at adran 66.

3.9 Felly, cytunodd y Pwyllgor i weithredu'r weithdrefn a nodir yn Rheol Sefydlog 11.4. Yn ôl y Rheol Sefydlog, cyn hysbysu'r Cynulliad y dylai roi sylw arbennig i unrhyw ddeddfwriaeth, dylai'r Cadeirydd, fel cam cyntaf, hysbysu'r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol o fwriad y Pwyllgor i wneud yr hysbysiad hwnnw a rhoi'r cyfle i'r Ysgrifennydd Cynulliad ymateb naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig.

**Gweithredu: Ymgynghorydd Cyfreithiol/Clerc.**

3.10 Mae adroddiad drafft rhagarweiniol y Pwyllgor ar y Rheoliadau ar gael fel LC392 (Adroddiad Drafft).

**LC399: Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2002**

3.11 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflym.

3.12 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, nododd y Pwyllgor iddynt gyfeirio sylw'r cyfreithiwr drafftio at rai mân bwyntiau teipograffyddol.

3.13 Mae adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau ar gael fel LC399 (Adroddiad).

**LC401: Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Addysg (Cymru) 2002**

3.14 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.15 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol y cyfle i weld drafft cynnar a nodwyd nifer o bwyntiau a oedd wedi cael eu hystyried yn y drafft terfynol. Fodd bynnag, nododd y Pwyllgor nifer o bwyntiau teipograffyddol y byddai angen eu cywiro cyn gwneud y rheoliadau.

3.16 Mae adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau ar gael fel LC401 (Adroddiad).

**Eitem 4: Unrhyw Fusnes Arall a Dyddiad y cyfarfod nesaf**

4.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 29 Ionawr 2002.